Enwau lluosog -i

Mae Dwli'n dweud:



Weithiau, er mwyn dangos bod *mwy nag un* o rywbeth, mae **-i** ar ddiwedd enw, fel hyn:


pêl > peli



basged > basged**i**



1. Rho'r geiriau hyn drwy'r peiriant lluosog:



2. Mae enw lluosog **-i** yn yr ateb i bob cliw ac mae'r geiriau i gyd wedi dod o'r peiriant lluosog yn ymarfer 1.

Cliw:	**Ateb:**
a. Rwyt ti'n cael y rhain yn yr ysgol.	gwersi
b. Mae'r rhain yn gallu mynd i'r lleuad.	
c. Rydyn ni i gyd yn byw mewn un o'r rhain.	
ch. Mae ein bwyd yn cael ei roi ar y rhain.	
d. Mae rhai pobl yn mynd yma ar ddydd Sul.	
dd. Mae llawer o siopau yn y rhain.	
e. Weithiau mae'r rhain yn odli.	
f. Rydyn ni'n defnyddio'r rhain i siopa.	

3. Mae'r geiriau isod wedi dod allan yn anghywir o'r peiriant lluosog. Wyt ti'n gallu eu hysgrifennu nhw'n gywir? Cofia: mae pob gair yn gorffen ag **-i**. Cofia hefyd: un llythyren yw ll a rh.

a. leip	peli
b. serhi	
c. iywnll	
ch. trselli	
d. nepertfi	



DWLI'S HELP FOR PARENTS:

Plural nouns ending in -i

Some words end in **-i** to show that there is more than one of something.

1. Put these words through the Plural Machine (add **-i** to each one to create the plural).
2. The answers to the clues are all plural nouns ending in **-i** and all the words are in exercise 1. Answer: a. You have these in school – gwersi = lessons. b. These can go to the moon – rocedi = rockets; c. We all live in one of these – cartrefi = homes; ch. Our food is placed on these – llestri = dishes; d. Some people go here on Sunday – eglwysi = churches; dd. There are lots of shops in these – trefi = towns; e. Sometimes these rhyme – cerddi = poems; f. We use these when shopping – basgedi = baskets.
3. These words have come out wrongly from the plural machine. Can you write them correctly? Remember: all the words end with **-i**. Also remember: ll and rh are one letter. a. peli = balls; b. rhesi = rows; c. llwyni = bushes; ch. llestri = dishes; d. pentrefi = villages.

* Now, colour in the **–i** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren â **-i** arni ar dudalen 48.*